Senedd Cymru
Welsh Parliament




# Cymdeithas heb arian parod - ein hadroddiad

Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru

# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Ni yw **Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru.**



**Pwyllgor** yw grŵp sy'n cyfarfod i gyfarfod a gweithio pethau allan a gwneud newidiadau.



Mae siopau a busnesau eraill ble nad yw pobl yn medru talu am bethau gydag **arian parod.**



Mae **arian parod** yn golygu arian mewn papur neu geiniogau.

Rydym yn dechrau byw mewn **cymdeithas heb arian parod.**




Mae pobl gydag **anableddau dysgu** yn ei chael hi'n anoddach defnyddio arian parod mewn siopau a busnesau.

# Deiseb Mencap Cymru




Os nad yw busnes yn derbyn arian parod, mae’n rhaid i chi ddefnyddio cerdyn banc neu ffôn clyfar.




Mae’n golygu nad yw pobl heb gyfrif banc yn gallu prynu unrhyw beth. Mae’n gadael llawer o bobl allan o gymdeithas.

Mae **Mencap Cymru** wedi dechrau **deiseb.**

Mae **Mencap Cymru** yn elusen sy’n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru.



**Deiseb** yw pan fo grŵp o bobl eisiau i rywbeth newid.

# Mwy o wybodaeth am y ddeiseb

Dywedodd **Mencap Cymru** eu bod eisiau sicrhau bod pobl yn dal i allu talu gydag arian parod.



Fe wnaeth **2,500** o bobl arwyddo **deiseb** Mencap Cymru i ddangos eu cefnogaeth.

Fe wnaeth ein **Pwyllgor Deisebau** ddarganfod mwy am hyn.

# Mwy o wybodaeth am y ddeiseb

Fe wnaeth y ddeiseb ofyn i

Lywodraeth Cymru i



**"Weithredu fel bod pobl gydag anableddau dysgu ac oedolion eraill sy'n agored i niwed yn gallu parhau i ddefnyddio arian parod i dalu am bethau"**




Mae hyn oherwydd bod

- mwy a mwy o siopau a busnesau eraill yn gwrthod derbyn arian parod




- llawer o bobl gydag anableddau dysgu heb gyfrifon banc neu gardiau banc

Mae'n golygu bod pobl gydag anableddau dysgu yn cael eu gadael allan o gymdeithas.

# Beth wnaeth ein pwyllgor




Fe wnaeth y **Pwyllgor Deisebau** edrych ar adroddiadau a deddfau.


Ar **9 Hydref a 23 Hydref 2023**, clywodd y pwyllgor wybodaeth gan



- Mencap Cymru
- rhywun gydag anabledd dysgu
- mam rhywun ag anabledd dysgu
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- pobl sy'n berchen ar fusnesau
- The Friendly Trust



# Byw mewn cymdeithas heb arian parod



Fe wnaethon ni glywed llawer o straeon am beth sy’n digwydd pan mae busnesau yn gwrthod derbyn arian parod.

**Beth ddigwyddodd pan wnaeth pobl geisio talu gydag arian parod**





Fe wnaeth dyn gadw ei arian penblwydd i brynu crys rygbi o glwb rygbi.

Pan wnaeth o geisio talu, fe wnaethon nhw ddweud wrtho nad oedd yn gallu defnyddio’r arian parod felly ni wnaeth o gael y crys.



Aeth Steven i siop goffi yng Nghaerdydd. Mae’n hoff o wario ei arian yn mynd allan a chael coffi.




Pan wnaeth o geisio talu, fe ddywedon nhw wrtho mai dim ond gyda cherdyn yr oedd yn gallu talu.

# Byw mewn cymdeithas heb arian parod




Roedd dyn o'r enw Steven wedi'i siomi pan nad oedd yn gallu talu gydag arian parod mewn peiriant gwerthu byrbrydau.




Roedd dyn ifanc eisiau prynu cylchgrawn. Roedd wedi cynhyrfu gymaint pan nad oedd yn gallu talu gydag arian parod, cafodd yr heddlu eu galw.



Gall methu â thalu am bethau gydag arian parod newid sut mae pobl yn teimlo a beth allant ei wneud.



Gall wneud i bobl deimlo'n drist ac fel eu bod yn cael eu gadael allan.

# Byw mewn cymdeithas heb arian parod




Byddai tua **17 o bob 100** o bobl yn ei chael hi’n anodd byw mewn cymdeithas heb arian parod.




Nid yw rhai pobl yn gallu cael cyfrif banc.

Ni all gweithwyr cymorth dalu am bethau ar ran pobl.




Nid yw rhai pobl yn deall cardiau banc a sut maent yn gweithio.




# Busnesau sydd ddim yn derbyn arian parod

Dywedodd pobl fwy wrthym am fusnesau sydd ddim yn derbyn arian parod gan gynnwys



- siopau
- caffis a siopau coffi
- clybiau chwaraeon



- pyllau nofio
- theatrau




- canolfannau celfyddydol
- parciau gwyliau

# Beth ddywedodd busnesau



Dywedodd busnesau fwy wrthym am pam eu bod yn derbyn neu ddim yn derbyn arian parod.




- mae banciau lleol yn cau – nid yw busnesau yn gallu cael arian i mewn ac allan o’u cyfrif banc



- nid yw’n ddiogel cadw arian parod am ddyddiau, ac yna gyrru pellter hir i fynd a’r arian i’r banc agosaf.

- mae banciau yn codi mwy ar fusnesau i ddelio ag arian parod ac i dderbyn taliadau â chardiau



- ni all **taliadau heb arian parod** ddigwydd pan nad oes Wi-Fi

# Sut i ddatrys hyn



Fe wnaeth pobl roi llawer o syniadau i ni am ffyrdd gwahanol o dalu.



Fe wnaethont ddweud wrthym y dylai siopau gael arwydd i ddweud eu bod **yn derbyn arian parod.**

Dylem



- ✓ **ddysgu busnesau** am y gofid gall bobl deimlo os nad ydynt yn cael defnyddio arian parod



- ✓ **dysgu pobl gydag anableddau dysgu** am arian

- ✓ **dangos i bobl gydag anableddau dysgu** sut i dalu gydag ap ar eu ffôn clyfar

# Sut i ddatrys hyn



Rydym am sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth dros eu harian eu hunain.

Pan fydd darparwyr gofal yn cael eu harolygu, dylai arolygwyr ddarganfod sut mae pobl yn cael eu cefnogi i

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

- ddysgu am arian
- cael mynediad at eu harian
- dod o hyd i ffyrdd o gael cyfrifon a chardiau banc






Gwneud yn siŵr y gall busnesau gael arian parod a thalu arian i mewn yn lleol.
Er enghraifft, defnyddio Hwb Bancio.

# Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd



Diolch i bawb wnaeth ddweud wrthym am ddefnyddio arian parod a phan na allant wneud hynny.




Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw hi i siopau a chaffis dderbyn arian parod.

Rydym yn gwybod ei fod yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl.



Fe wnaethom wrando arnoch ac rydym wedi gofyn i **Lywodraeth Cymru** helpu.

# Beth rydyn ni’n meddwl ddylai ddigwydd



Dyma ein hargymhellion i **Lywodraeth Cymru**.

**1.** Pan fydd sefydliad yn cael cyllid gan y llywodraeth, dylai barhau i dderbyn arian parod.




**2.** Dylai fod mwy o ymchwil i beth sy’n digwydd os na all pobl ddefnyddio arian parod.



**3.** Dysgu busnesau am beth sy'n digwydd os na all pobl ddefnyddio arian parod.

## Beth rydyn ni’n meddwl ddylai ddigwydd

**4.** Gweithio gyda Llywodraeth y DU a’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i ddod o hyd i ffyrdd o helpu pobl gael eu cynnwys mewn **cymdeithas heb arian parod**.




**5.** Sicrhau bod banciau a pheiriannau arian parod ym mhob cymuned leol.

# Sut i ddarganfod mwy



Gallwch ddysgu mwy am beth mae'r Pwyllgor Deisebau wedi'i wneud yma

[senedd.cymru/cymdeithas-heb-arian-parod](senedd.cymru/cymdeithas-heb-arian-parod)



## Sut i gysylltu

Gallwch gysylltu â ni drwy alw'r rhif hwn

**Ffôn:** 0300 200 6565




Neu anfon e-bost i

**E-bost:** [cysylltu@senedd.cymru](mailto:cysylltu@senedd.cymru)

Neu ymweld â'n gwefan




**Gwefan:** [https://senedd.cymru/](https://senedd.cymru/)